

## ECCE HOMO

## 1

Mae ar Gymru ymddiheuriad ers blynyddoedd i'r Arglwydd Grist:  
gwnaethom ŵr parchus, diddrwg didda ohono, y troseddwr trist.

Rhyw fabi-siwgwr o feseia, ryw ddelff o dduw,  
A ddaeth i'n byd i'n gwaredu rhag bwnglera byw.

Bwrw am y llwybr canol, beth bynnag am y llwybr cul;  
Byw yn wylidwrus drwy'r wythnos, ymdduwioli'r Sul,

Aeth ei Eni yn ein dwylo fel Blodeuwedd yn chwedl gain;  
A'i Groes yn bopeth ond annibendod a drewdod a drain.

Rhyw daeog o Grist a'i feiddgarwch wedi hen ddiflannu;  
Ei air yn ie a nage, a'i grwsâd yn gymanfa-ganu.

Cenedl fechan oedd ei genedl ef fel ninnau...  
Hen linach; hen wynebaw; hen lawenydd; a hen, hen iaith;  
Salm ac ysgrythur yn drysorau hen draddodiad,  
A'r Capel Mawr ar y bryn yn sefyll rywle rhwng Jerwsalem a'r Nef.

Yntau, dysgodd garu'r 'hen wlad' a gwarchod 'y pethe',  
nid am fod eu tipyn tir a'u pethe'n amgenach, dim ond  
am mai nhw oedd a'u piau, ac i'r patrwm hardd  
ddod i lawr o genhedlaeth i genhedlaeth, o law i law.

Ysywaeth, gwlad wedi'i goresgyn oedd ei wlad yntau;  
cenedl dan ormes, heb fod y mwyafrif yn anesmwytho dim am hynny –  
'Onid yw'r 'gelyn' wedi gwella'n byd?' medde nhw; ac roedd hynny'n wir, wrth gwrs!

Ond yr oedd rhai ar dân... ynfydion!  
Cerddodd y fflam i'w galon ifanc; a dechreuodd sôn  
Am 'roi'r deyrnas yn ôl i Israel' ryw ddydd...

Bydd y Llywodraeth a'r Sefydliad ymhob oes  
yn galw'r plismyn i ddelio â rhyw ieuenctid di-wâr fel hyn.

'Meseia!' edliwiai'r bobl barchus yn y Capel Mawr,  
'Pa Feseia yw hwn sy'n difrio crefydd a bwgwth tynnu'r deml i lawr?'

Galwyd cwrdd-eglwys. Pasiwyd yn unfrydol, wrth gwrs.  
'Croeshoelir ef!' – Mae'r gymdeithas a fyn gyfaddawd â Chesar,  
Boed Fethel, boed fosg, yn gorfod gwneud hyn.

Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl meseia... O ran Rhufain,  
os na fynychai'r ifanc y Capel Mawr, nid oedd yn ddiwedd y byd;  
ac am Grist, nid ei grefydd oedd yn dramgwydd, ond...  
roedd iaith Galilea yn ei galon a mynnai i genedl Israel fyw.

## 2

Wrth ei bobl, dywedodd: 'Os y Mab gan hynny a'ch rhyddha...'  
ac ar y gair, cysegrwyd Mudiad Rhyddid pob cenedl fach dan haul.

Galwodd un o'r selotiaid yn ddisgybl, ac yn yr act,  
aeth cenedlaetholdeb yn rhan o bolisi Teyrnas Dduw.  
Chwipiodd yr offeiriaid a'r dynion-busnes; ac o'r pryd hwnnw ymlaen,  
aeth cyfaddawd â'r pwerau mawr yn ffeidd-dra ar allor Duw.

Gwyddom y gweddill...

(Mae'r Nasaread Crog ar y Bryn

Yn un o ddarluniau hoffus orielau a pharlyrau Cymru!)

Nid yw'n anodd i'r twrneiod a'r bargyfreithwyr gael eu ffordd –  
mae'r gyfraith yn erbyn y gŵr na fyn ei addasu ei hun i'r byd hwn.

Rhwygwyd y wisg oddi ar ei gefn – a'i waed fel enfys ar siôl!  
Byrstiodd y traed yn eu sandalau, saeth y dur fel dur-pistyll wedi'r gawod.

Maddau iddynt – dyna'r cwbl a ddywedodd,  
cyn i'r ffurfafen chwydu ei chywilydd a'i rhegfeydd yn gesair a mellt  
ar ben twpdra didosturi, difalio, disynnwyr creadur o ddyn.

Mae'r Gwirionedd ar ein pyst ninnau heddiw,  
a'r Gwaed ar ein harwyddion yfflon a'r pelmynt poen.

Arglwydd, a'th ieuangrwydd yn anadl i gredo o hyd,  
maddau dy heneiddio gennym yn ryw geriatrig o Grist;  
dy lusgo i'r eglwys-gadeiriol i wrando'r haerllugrwydd  
yn troi dy Bregeth yn ddarn o bropoganda'r ymerodraeth fawr.

Maddau i ni altro'r Gair a cheisio meddiannu'r Gwirionedd;  
mynnu ambell gam yn gywir ac ambell ddrwg yn dda;  
a chymryd y dorth a'r cwpan fel pe bai'r sacrament yn barti –  
rho halen Dy boen yn y bara a blas y gwaed yn y gwin!

Maddau, maddau, pan yw Israel a Chymru o hyd yn eu gofid,  
nad wylwn ddeigryn o leia' dros roi'r deyrnas yn ôl iddyn-nhw.

*Rhydwen Williams*